



E-GYLCHLYTHYR Gwanwyn 2019

1



Diweddariad TYR

Mae cymaint wedi bod yn digwydd yn ystod y chwarter cyntaf hwn, Brexit, cyhoeddiadau rhaglenni newydd gan Lywodraeth Cymru, Brexit, lansiad cyffrous Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a mwy fyth o ddatblygiadau Brexit, fel y gall fod yn anodd canolbwyntio ar gyflawni ein rhaglenni a ariennir gan yr UE.

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau nad yw'r momentwm wedi'i golli ar draws y rhanbarth, ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau partneriaeth. Gyda Brexit yn ychwanegu mwy o ansicrwydd i economi Cymru a chanolbwyntio o'r newydd ar gyflogadwyedd, fe wnaeth y tîm arwain gweithdy ar gyfer arweinwyr prosiect ESF, Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru i archwilio cyfleoedd, heriau a sut y gallwn gydweithio orau i sicrhau'r manteision gorau posibl gan Cymru'n Gweithio, y gwasanaeth cyngor cyflogaeth newydd. Roedd yn dda atgoffa pawb y bydd ein cyfres o brosiectau ESF yn cyflawni i mewn i 2023 ac i drafod pwysigrwydd cydweithio parhaus.

Rydym hefyd wedi gweld y rhwydwaith Cystadleurwydd BBaCh rhanbarthol yn mynd o nerth i nerth. Yn y digwyddiad ym mis Mawrth, a gynhaliwyd yn ICE Cymru yng



Nghaerffili, daeth swyddogion datblygu economaidd o bob un o'r deg awdurdod lleol, arweinwyr Busnes Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach a chynrychiolwyr o AU, AB a Gyrfa Cymru ynghyd i rannu arferion gorau gyda ffocws y tro hwn ar entrepreneuriaeth ymhlith ieuenctid.

Os ydych chi'n cyflwyno prosiect a ariennir gan yr UE ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac nad ydych yn rhan o'n rhwydweithiau eto, nid yw byth yn rhy hwyr felly cysylltwch â ni, rydym wrth ein bodd yn clywed gennych.

Yn y rhifyn hwn

Diweddariad TYR

Tudalen 1

Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Tudalen 2

Cymru'n Gweithio

Tudalen 2

Bargen Ddinesig PRC

Tudalen 3

Perfformiad rhanbarthol

Tudalen 3

STEM Cymru 2

Tudalen 4

Technocamps

Tudalen 5

Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 6

Galwad Interreg Gogledd Orllewin Ewrop

Tudalen 7

Map rhyngweithiol Rhwydwaith Gwledig Cymru

Tudalen 7

Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru i gyflymu'r broses o ddatblygu polisiau ar gyfer trefniadau olynol mewn perthynas â Chronfeydd Strwythurol ar ôl Brexit, sydd wedi'u cynllunio yng Nghymru ac y gellir eu cyflwyno o 2021 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol ar gyfer Cymru, a gaiff ei gadeirio gan Huw Irranca-Davies AC. Dyma dull strategol cenedlaethol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, a bydd yn manteisio ar wybodaeth a phrofiad mewn busnesau, awdurdodau lleol, sefydliadau academiaidd, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus ehangach ar draws Cymru er mwyn cynnig sialens a chynghor i Lywodraeth Cymru. Cynhaliodd y Grŵp ei gyfarfod cyntaf yng Nghaerdydd ar 18 Chwefror, a bydd yr aelodaeth, y papurau a'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar [we-dudalennau Llywodraeth Cymru](#).

Hefyd, mae prosiect dwy flynedd gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar waith er mwyn ceisio cyfarwyddo cynlluniau newydd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, yn ogystal â rhoi'r Cynllun Gweithredu Economaidd ar waith.



Bydd y corff rhyngwladol ei fri hwn yn defnyddio'i brofiad rhyngwladol helaeth o ran datblygu economaidd i roi cynghor i Lywodraeth Cymru. Mae rhan gyntaf 2019 yn cynnwys canolbwyntio ar waith dadansoddi a chasglu tystiolaeth; yn ystod y prosiect bydd cyfleoedd ymgysylltu niferus i'w cael ar gyfer partneriaid, yn cynnwys seminarau a chenadaethau astudio OECD. Gellir cael mwy o fanylion am brosiect OECD [yma](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Cymru'n Gweithio: gwasanaeth cyngor cyflogadwyedd newydd ar gyfer Cymru

Yn ddiweddar cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ddatganiad ysgrifenedig ar "Y Cynllun Cyflogadwyedd – Blwyddyn yn Ddiweddarach". Fel y dywedwyd o'r blaen, bydd proses gaffael ar gyfer rhaglen gyflogadwyedd newydd yn cael ei chynnal i ddisodli'r pum rhaglen bresennol (ReAct, Twf Swyddi Cymru, Hyfforddeiaethau, y Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd a Mynediad). Bydd tair cainc yn perthyn i Cymorth Swyddi Cymru (sef yr enw newydd ar y rhaglen a elwid gynt yn

Cymru'n Gweithio): lotiau Ymgysylltu ag leuenctid; Hyfforddi leuenctid a Rhaglen Oedolion. Bydd y broses gaffael ar gyfer y rhaglen hon yn cychwyn cyn bo hir. Pan fo hynny'n briodol, bydd Llywodraeth Cymru'n ymestyn contractau gyda darparwyr er mwyn gallu parhau i gyflawni'r hen raglenni hyd nes y caiff y rhaglen newydd ei chaffael.

Ymhellach, bydd y gwasanaeth cyngor cyflogadwyedd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynir gan Gyrfa Cymru, yn cael ei lansio ar 1 Mai, a bydd yn cael ei alw'n Cymru'n Gweithio. Bydd mwy o wybodaeth am lansio'r gwasanaeth hwn yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill.

Gellir gweld testun llawn datganiad y Gweinidog [yma](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Bargen Ddinesig PRC

Cyflwynodd Partneriaeth Twf Economaidd (PTE) PRC ei Chynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd ar gyfer DDd Cymru, cyn ei arddangos yn Wythnos Cymru yn Llundain. Mae Frank Holmes, Cadeirydd PTE PRC yn siarad am ei ddiben a'r angen i'w arddangos o fewn a thu hwnt i Gymru.



“Mae'r cynllun hwn wedi'i arwain gan ddiwydiant a'i ddatblygu gan arweinwyr busnes yn y rhanbarth. Mae'n tynnu sylw at rai materion yn ymwneud â chynhyrchiant economaidd y mae ein rhanbarth yn eu hwynebu, gan gymeradwyo prosiectau a all ehangu'n gyflym ac a gaiff eu harwain gan arloesedd - prosiectau sy'n angenrheidiol i gynhyrchu twf cynaliadwy a ffyniant cynhwysol.

Gan adeiladu ar fanteision cystadleuol y rhanbarth, mae'r Cynllun yn targedu sectorau a fydd yn elwa ar gymorth i dyfu a ffynnu.

Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a'r gadwyn gyflenwi
- Deallusrwydd Artiffisial, Diogelwch Data a Seiberddiogelwch
- Technoleg Ariannol
- Economi Greadigol
- Gwyddorau Bywyd - yn fwy penodol, yr is-sectorau dyfeisiadau meddygol a diagnosteg.
- Peirianeg Trafnidiaeth - moduron, trenau ac awyrennau

Canolbwynt hollbwysig arall yw seilwaith dibynadwy sy'n cysylltu ar draws a thu hwnt i'r rhanbarth. Mae hyn yn golygu y gall y Cynllun gynorthwyo cymunedau o amddifadedd a chymunedau ynysig nad ydynt wedi'u cysylltu'n dda, ac annog twf adfywiol.

Fel gydag unrhyw gynllun, bydd ei lwyddiant yn ddibynnol ar y modd y caiff ei weithredu a'i arwain, felly mae'n hanfodol inni greu amlygrwydd a dylanwad y tu allan i Gymru. Mae ein cystadleuaeth i'w chael dramor ac yn rhanbarthau eraill y DU. Felly, rydym yn hyrwyddo ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid oddi allan i'r wlad; gan werthu ein rhanbarth buddsoddadwy i gynulleidfaoedd ehangach.”

Gellir gweld y cynllun cyflawn ar [wefan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Perfformiad rhanbarthol

Dyma'r prif ffigurau diweddaraf ar gyfer perfformiad gweithgareddau a ariannir gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn Rhanbarth y De-Ddwyrain. Gellir cael data manylach ar [wefan WFO](#).

Cronfa	Dangosydd	Ffigyrau ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain
ERDF	Mentrau a gafodd eu cynorthwyo	2,401
	Mentrau a gafodd eu creu	686
	Swyddi a grëwyd	4,679
ESF	Cyfranogwyr a gafodd eu cynorthwyo	81,166
	Cyfranogwyr a gafodd eu cefnogi i gael cyflogaeth	7,278
	Cyfranogwyr a enillodd gymwysterau	33,881
	Cyfranogwyr mewn addysg / hyfforddiant	4,171

[...yn ôl i'r brig](#)

STEM Cymru2

Pwrpas STEMCymru2 gan EESW yw ymdrin ag Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid, gan ganolbwyntio ar Amcan Penodol 3: Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.

Mae'r prosiect yn cynnig amrywiaeth o gysylltiadau a gweithgareddau STEM cyffrous sydd wedi'u cysylltu â diwydiannau. Bydd y cyfranogwyr yn datblygu ystod o sgiliau a fydd yn caniatáu iddynt fod yn fwy hyblyg a pharod i newid, a byddant yn fwy ymwybodol o'r angen am sgiliau cyflogadwyedd, tra'n gwella'u cyrhaeddiad trwy ddefnyddio gwybodaeth am fathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg mewn cyd-destunau go iawn.

Mae pum cainc yn perthyn i'r prosiect er mwyn annog disgyblion i ddatblygu sgiliau STEM mewn cyd-destunau lle y mae angen atebion arloesol i broblemau:

- Denu merched at STEM
- F1 mewn ysgolion
- i2E Cyflwyniad i Beirianeg
- Prosiect Diwydiant Chweched Dosbarth
- Headstart Cymru

Dyma rai enghreifftiau o'r digwyddiadau y mae'r prosiect yn eu cynnal, neu'r digwyddiadau y mae'n helpu disgyblion i ymgysylltu â hwy:

Tîm Tachyon yn rownd derfynol ryngwladol F1 mewn Ysgolion yn Austin, Tecsas



Fel rhan o'r gystadleuaeth [F1 mewn Ysgolion](#), mae timau o fyfyrwyr yn dylunio ac yn cynhyrchu modelau o geir rasio F1 wedi'u

pweru gan CO2 trwy ddefnyddio meddalwedd cynllunio gyda chymorth cyfrifiadur soffistigedig a dulliau cynhyrchu gyda chymorth cyfrifiadur (CAD/CAM). Mae timau'n cystadlu am wobrau mawreddog ac am y cyfle i gynrychioli Cymru yn y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol a Rowndiau Terfynol y Byd.

'Big Bang' De Cymru, Parc y Scarlets 2018



Gwobrau Disgybl Chweched Dosbarth y Flwyddyn 2018



Mae Gwobr Myfyriwr EESW y Flwyddyn yn gyfle i ddathlu'r myfyrwyr a gymerodd ran yn y Prosiect Chweched Dosbarth EESW y llynedd, er cof am Dr Tom Parry Jones, entrepreneur, dyfeisiwr ac ymddiriedolwr y cynllun ers dros 20 mlynedd.

Cafodd dros 500 o fyfyrwyr Blwyddyn 12 a gymerodd ran yn y cynllun y llynedd gyfle i wneud cais am fod yn Fyfyriwr EESW y Flwyddyn. Cynhaliwyd y gwobrau hyn fel rhan o Ginio Rhwydweithio Blyneddol Fforwm Modurol Cymru yng Ngwesty'r Vale Resort, ddydd Iau 29 Tachwedd.

I gael mwy o wybodaeth am lwyddiannau diweddar, edrychwch ar [wefan y prosiect](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Technocamps

Pwrpas gwaith hynod lwyddiannus Technocamps, a ariennir yn rhannol gan Ewrop trwy Flaenoriaeth 3 Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), yw ennyn diddordeb, cymell ac ysbrydoli disgyblion i fod eisiau astudio pynciau STEM ar lefel TGAU a Safon Uwch. Y nod yw annog pobl ifanc i astudio cyfrifiadura yn arbennig – ar lefel TGAU a thu hwnt. Mewn ysgolion targed nad ydynt yn cynnig cyfrifiadura ar lefel TGAU, bydd y cymorth yn creu amgylchedd a fydd yn eu hannog i ddarparu ar gyfer uchelgeisiau'r cyfranogwyr. Mae'r prosiect hefyd yn annog disgyblion i astudio pynciau STEM eraill nad ydynt yn ymwneud â chyfrifiadura, a hynny trwy ddefnyddio gweithdai sy'n rhoi atebion cyfrifiadurol ar waith i ddatrys problemau a gyfyd o'r pynciau STEM eraill hyn.



Yn ddiweddar, aeth Technocamps i Brifddinas Cymru i gymryd rhan yn rowndiau terfynol y gystadleuaeth godio flynyddol – 'Game of Codes' – a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd disgyblion o bob cwr o Gymru y dasg o greu meddalwedd ar y thema Dinasoedd Clyfar. Llwyddodd creadigrwydd, arloesedd a sgiliau technegol yr holl dimau, ynghyd ag ansawdd eithriadol y cyflwyniadau gan yr holl ysgolion a gymerodd ran yn y rownd derfynol, i greu argraff aruthrol ar y beirniaid.

Pleser i Reolwr y Prosiect, Julie Walters, oedd cael mynychu ei digwyddiad cyntaf ers cychwyn yn ei rôl gyda Technocamps:

“Roedd hi'n wych gweld cymaint o frwdfrydedd yn yr ystafell a chynifer o brosiectau gwahanol gan yr holl ddisgyblion a oedd yn cymryd rhan.”



Ysgol Gyfun Pontarddulais o Abertawe oedd y prif enillwyr. Mae syniad arloesol yr ysgol ar gyfer ap clyfar i'r cartref yn galluogi'r defnyddiwr i reoli goleuadau, bleindiau a phethau eraill yn y tŷ, gan wneud yn fawr felly o effeithlonrwydd amgylcheddol. Roedd Mr. Lewis, yr athro TG a gynorthwyodd y tîm buddugol, wrth ei fodd gyda'r canlyniad: *“Fe weithiodd y disgyblion mor galed ar y prosiect, gan aros ar ôl yn rheolaidd am ddwy i dair awr i ddatblygu'u cysyniadau. O safbwynt athro, roedd hi'n wych gweld criw o gyfeillion ifanc, brwd yn gweithio gyda'i gilydd i droi syniad cychwynnol yn brototeip hollol weithredol.”*

Roedd Evie Beck, aelod o'r tîm, yr un mor frwdfrydig ynglŷn â'r holl brosiect: *“Fe wnaethon ni aros yn hwyr ar ôl i'r ysgol offen a dod i mewn amser cinio – ac fe wnaeth ein holl waith caled ddwyn ffrwyth. Mae gwybod bod y beirniaid yn gwerthfawrogi'r holl ymdrech a'r holl amser a dreulion ni ar y prosiect yn deimlad anhygoel.”*

Mae'r gystadleuaeth genedlaethol, sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, wedi hen ennill ei phlwyf mewn rhai ysgolion fel rhan o'u rhaglenni cyfoethogi STEM. Ein gobaith yw y bydd yn parhau i dyfu a ffynnu mewn blynyddoedd i ddod, gyda llawer mwy o

Tasglu'r Cymoedd

Mae Tasglu'r Cymoedd yn rhoi dull cydlynol ar waith o ymdrin â datblygu economaidd ar draws y Cymoedd, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Yn dilyn y newidiadau diweddar yn y Llywodraeth, mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, Lee Waters AC, wedi ysgwyddo rôl Cadeirydd y Tasglu ac mae'n cyfarfod â rhanddeiliaid, arweinwyr awdurdodau lleol ac aelodau'r Tasglu fesul un er mwyn gweld beth, ym marn ein partneriaid, sydd wedi'i wneud yn dda ers i'r Tasglu gael ei sefydlu, a ble y mae angen canolbwyntio mwy.



Mae'r Dirprwy Weinidog yn arbennig o awyddus i ganolbwyntio o'r newydd ar yr economi sylfaenol wrth symud ymlaen. Mae economi sylfaenol gref yn hanfodol i gymunedau'r Cymoedd ac rydym eisiau creu cyfleoedd newydd ar draws amrywiaeth o sectorau. Rydym eisiau sicrhau bod busnesau, cyflogwyr ac unigolion yn

ymwybodol o'r gwahanol fathau o gymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt i roi hwb i'w cynaliadwyedd ariannol, ynghyd â chynaliadwyedd ariannol eu heconomi leol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwella ymwybyddiaeth ynghylch llwybrau gyrfaedd, darparu sgiliau, arferion cyflogaeth, a swyddi a gwaith teg.

Gyda hyn mewn cof, mae'r Dirprwy Weinidog hefyd wedi mynegi dymuniad i weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd yn y Cymoedd mewn gwahanol ffyrdd – yn cynnwys cysylltu ysgolion â busnesau lleol, creu rhwydwaith o fodelau rôl ar gyfer pobl ifanc er mwyn ystyried gwahanol lwybrau gyrfaedd a gweld sut y gellir defnyddio ysgolion yn well er defnydd y gymuned.

Mae'n gweithio'n agos gydag amrywiaeth o Weinidogion er mwyn sicrhau y bydd gwaith y Tasglu'n parhau i fod yn drawsbynciol ei natur ac er mwyn annog mwy o fuddsoddi yn y Cymoedd.



Yn olaf, rydym yn teimlo'n gyffrous iawn ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud ym Mharciau Rhanbarthol y Cymoedd. Yn ystod y mis diwethaf cynhaliwyd lluo o ddigwyddiadau gyda grwpiau cymunedol, ac mae'r adborth wedi bod yn amhrisiadwy. Yn awr, rydym wedi gwahodd awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid cyfalaf i gynorthwyo i ddatblygu Pyrrh Darganfod, felly cadwch eich llygaid ar agor....

[...yn ôl i'r brig](#)

9fed galwad Interreg Gogledd Orllewin Ewrop

Mae rhaglen Interreg Gogledd Orllewin Ewrop yn chwilio am fentrau cydweithredu trawswladol a all arwain at ganlyniadau cadarn i ardal Gogledd Orllewin Ewrop.

Mae'r nawfed alwad am gynigion prosiectau bellach ar agor tan 14 Mehefin 2019. Dim ond ar gyfer blaenoriaeth 1 a blaenoriaeth 3 Rhaglen Gogledd Orllewin Ewrop y mae'r alwad bresennol yn berthnasol. Mae gan bob un o'r blaenoriaethau hyn un amcan penodol. Felly, gwahoddir partneriaethau trawswladol i gyflwyno'u cais dan un o'r blaenoriaethau canlynol:

Blaenoriaeth 1: Arloesi

Amcan Penodol 1: Gwellu perfformiad arloesi mentrau trwy ranbarthau Gogledd Orllewin Ewrop.

Blaenoriaeth 3: Effeithlonrwydd adnoddau a deunyddiau

Amcan Penodol 5: Gwneud y gorau o (ail) ddefnyddio deunyddiau ac adnoddau naturiol yng Ngogledd Orllewin Ewrop.

I gael cymorth a gwybodaeth bellach ynglŷn â'r alwad, edrychwch ar [wefan Interreg Gogledd Orllewin Ewrop](#).



[...yn ôl i'r brig](#)

Map rhyngweithiol Rhwydwaith Gwledig Cymru

Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi llunio map rhyngweithiol newydd o Grwpiau Gweithredu Lleol Cymru a phrosiectau'r Cynllun Datblygu Gwledig a roddir ar waith ganddynt. Hyd yn hyn mae mwy na 400 o brosiectau LEADER wedi'u cyhoeddi ar dudalennau rhyngweithiol y prosiect, lle y ceir dolenni ar gyfer gwe-dudalennau byw neu astudiaethau dichonoldeb.

Gallwch weld y map [yma](#).

Local action groups and projects

Choose project area

All Projects

1. Bridgend
2. Caerphilly
3. Carmarthenshire
4. Ceredigion
5. Conwy
6. Denbighshire
7. Flintshire
8. Gwynedd
9. Isle of Anglesey
10. Merthyr Tydfil
11. Neath Port Talbot
12. Pembrokeshire
13. Powys
14. Swansea
15. Torfaen
16. Vale of Glamorgan
17. Vale of Usk
18. Wrexham

Cooperation projects

- * Welsh Cooperation Projects
- * Interterritorial/Transnational Projects

[...yn ôl i'r brig](#)